

YSGOL GYFUN CWM RHYMNI

Awdurdod Unedol Caerffili- Adran Addysg
Caerphilly Unitary Authority- Education Department

☎ (01443) 875227
FAX (01443) 829777

Cwmrhymni.com



Heol Gelli Haf
Fleur De Lys
Y Coed Duon
NP12 3JQ

10/11/16

Y profiad o fod yn aelod o rwydwaith o Ysgolion Arloesi sy'n helpu i ddatblygu'r cwricwlwm newydd;

Manteision

- Bod yn rhan o rywbeth pwysig
- Cyfle i gyfrannu/llais a werthfawrogir
- Ennyn brwdfrydedd ac uchelgais staff

Rhwystredigaeth

- Rhai ysgolion yn cyfrannu llawer , eraill ddim er iddynt wirfoddoli i gymryd rhan.
- Anghysondeb a dim gorolwg i ganfod hynny
- Rhwystredigaeth – perygl o golli brwdfrydedd wrth i'r broses lusgo. Cyfyngu ar y gallu i ddilyn y llinell amser; creu ymdeimlad di-angen o fethiant

Manylion unrhyw waith cwricwlwm y mae'r Ysgolion Arloesi wedi bod ynghlwm ag ef ac unrhyw wybodaeth berthnasol yr hoffent ei dwyn i sylw'r Pwyllgor

- Wythnos drawsgwricwlaidd yn cwmpasu'r chwe maes dysgu a phrofiad
- Pedair ysgol uwchradd ar ddeg wedi dod ynghyd, fesul maes dysgu a phrofiad, i rannu syniadau/deunyddiau
- Tair o ysgolion yn cydweithio ar arsylwi o'r cyfnod Sylfaen hyd at gyfnod allweddol 3
 - Cynllunio elfen o gwricwlwm gwyddoniaeth yn seiliedig ar Y Syniad Mawr
 - Addysgu'r gwersi a'u gwerthuso



Prifathro/Headteacher Mr Owain ap Dafydd B.Eng



Sylwadau ar y modd y mae'r gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd yn mynd rhagddo ac unrhyw sylwadau eraill ar y modd y mae Llywodraeth Cymru yn rhoiargymhellion yr Athro Donaldson ar waith.

- Profiadau gweithgorau arweinwyr strategol yn bositif
- Cynadleddau costus yn gallu bod yn ailadroddlyd; gellid crynhoi'r materion allweddol
- **Y modd y mae'r cyllid wedi cael ei ddsbarthu o fewn y rhwydwaith cyfrwng Cymraeg yn aneffeithiol ac yn groes i ethos rhwydwaith ac yn llesteirio cynllunio strategol, effeithiol.**